# Proffil Cyfansoddwr: Sergei Rachmaninov

YR FFEITHIAU

1 Ganed Sergei Vasilyevich Rachmaninov ar 1 Ebrill 1873, yn Starorussky Uyezd.

2 Bu farw Rachmaninov ar 28 Mawrth 1943 yn Beverly Hills, Califfornia.

3 Cyfansoddwr, pianydd ac arweinydd o Rwsia oedd Rachmaninov.

4 Ym 1918 ffodd Rachmaninov o Rwsia â'i deulu yn sgîl Chwyldro Rwsia, gan ymgartrefu yn Efrog Newydd.

5 Daeth Rachmaninov yn bianydd cyngerdd i wneud arian ar ôl ffoi Rwsia.

**Darnau nodedig:**

- *Rhapsodi ar Thema Paganini* (1934)
- *Dawnsfeydd Symffonig* (1940)
- *Vocalise* (1912)
- *Concerto Piano Rhif 2* (1901)
- *Concerto Piano Rhif 3* (1909)
- *Y Clychau* (1913)
- *Symffoni Rhif 2* (1908)



Sergei Rachmaninov

Dylanwadwyd yn drwm ar Rachmaninov gan Tchaikovsky.

Roedd Rachmaninov yn adnabyddus am ei alawon, rhamantus, melodïaidd.

Ar ôl symud i'r Unol Daleithiau, gwaharddwyd cerddoriaeth Rachmaninov yn Rwsia.

Mae clychau'r eglwys a'r siantiau litwrgaidd a glywodd Rachmaninov yn ei blentyndod yn cael eu hadleisio mewn llawer o'i weithiau.

Roedd gan Rachmaninov ddwylo anferthol a gallai ymestyn 13 cyweirnod ar y piano.

Ar ôl methiant ei symffoni cyntaf, daeth Rachmaninov yn isel ac roedd angen therapi arno. Nid oedd yn gallu cyfansoddi am bedair blynedd.

Roedd Stravinsky yn galw Rachmaninov yn "rwgnach chwe thoedfedd a hanner" gan ei fod yn dal iawn ac anaml yn gwenu.

Gallai Rachmaninov chwarae darnau a glywodd yn y gorffennol yn eithriadol o gywir.

arts active
actifyddion artistig